

## **Ymateb Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru i adroddiad y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol 'Adroddiad Gwaddol y Bumed Senedd'.**

### **Nodir Ymatebion Manwl i argymhellion yr adroddiad isod:**

**Argymhelliad 3.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd barhau i wella manylder ac eglurder y wybodaeth am ddyraniadau cyllid o fewn y Prif Grŵp Gwariant Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei chyllidebau blynyddol drafft.

**Ymateb:** Derbyn.

Byddwn yn parhau i adolygu strwythur y gyllideb ar gyfer MEG Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol i ystyried sut y gellir gwella gwybodaeth am ddyraniadau cyllid. Er enghraifft, yng Nghyllideb Atodol Gyntaf 2021-22 fe wnaethom greu Llinell Wariant yn y Gyllideb i ddangos y cyllid ar gyfer Awdurdod Iechyd Arbennig Iechyd a Gofal Digidol Cymru ar wahân. Byddwn hefyd yn parhau i ddefnyddio papurau tystiolaeth am y gyllideb i roi manylion pellach am y dyraniadau cyllid i'r GIG a gyflwynir yn y dogfennau a gyhoeddir am y gyllideb. Byddwn hefyd yn parhau i gyhoeddi'r dyraniadau refeniw blynyddol i'r byrddau Iechyd Lleol ar wefan Llywodraeth Cymru.

**Goblygiadau ariannol – Dim.**

**Argymhelliad 5.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd ystyried effaith ei rhaglen deddfwriaethol ar allu pwyllgorau i graffu'n effeithiol ar Ffiliau, ac i ddarparu ar gyfer gwaith craffu o'r fath yn eu rhaglenni gwaith ehangach.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru'n rhoi gwerth mawr ar waith craffu pwyllgorau ar Ffiliau ac mae bob amser yn ystyried yr effeithiau arnynt wrth amserlennu ei rhaglen deddfwriaethol, er enghraifft, ymdrechu i beidio â chael mwy nag un Bil gerbron Pwyllgor ar unrhyw un adeg. Er hynny, mae yna adegau pan fo gofynion polisi neu sbardunau allanol eraill yn gosod cyfyngiadau ar hyblygrwydd y llywodraeth i amserlennu hynt Bil trwy'r Senedd. Un enghraifft oedd yr angen i gwblhau ystyriaeth Cyfnod 1 ar Fil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris am Alcohol) (Cymru) cyn i Ddeddf 2017 ddod i rym. Gall hyn wedyn arwain at alwadau cystadleuol rhwng dyletswyddau deddfwriaethol Pwyllgor a'i ddyletswyddau craffu ar bolisi.

**Goblygiadau ariannol – Dim.**

**Argymhelliad 6.** Dylai Llywodraeth Cymru yn y Chweched Senedd gymryd camau i sicrhau ei bod yn gallu rhoi cymaint o rybudd a chymaint o amser â phosibl ar gyfer y gwaith o graffu ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol.

**Ymateb:** Derbyn

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo fel mater o egwyddor i roi cymaint o rybudd ac amser i graffu ar Gynigion Cydsyniad Deddfwriaethol (LCMs) â phosibl i bwyllgorau'r Senedd. Er hynny, fel y mae'r Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon yn cydnabod, penderfyniadau a wneir gan Lywodraeth y DU sy'n pennu amserlenni LCMs yn bennaf.

**Goblygiadau ariannol – Dim.**